



ADRODDIAD ARIANNOL

Atodiad i Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2001-2002



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU ADRODDIAD ARIANNOL Y CYNGOR

2001-2002



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES



© Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Cyfieithiad: Elinor Wyn Reynolds
Dylunio a Chynhyrchu: Arwel Hughes, Mari Gordon
Argraffu: MWL

ISBN: 0-7200-0527-2

	Cynnwys	Tudalen
	Adroddiad Ariannol Y Cyngor	5
	Datganiad Ar Y System Rheolaeth Ariannol Fewnol	14
	Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyngor A'r Cyfarwyddwr	15
	Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru	15
	Datganiad O Weithgareddau Ariannol	17
	Mantolen	19
	Datganiad O'r Llif Arian	20
	Nodiadau Ar y Cyfrifon	21

Adroddiad Ariannol y Cyngor

Adroddiad Ariannol y Cyngor

Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru, sy'n gweithredu dan yr enw Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru (AOCC) drwy Siarter Frenhinol ym 1907. Adolygwyd ei Siarter ddiwethaf ym 1991. Yn ystod cyfnod yr Adroddiad, fe ariannwyd ei gweithgareddau yn bennaf gan daliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Amcanion AOCC

Pwrpas yr Amgueddfa yw addysgu'r cyhoedd trwy gasglu a chadwraeth gwrthrychau sy'n gysylltiedig â stori Cymru o'r cyfnodau cynharaf; ymchwil ysgolheigaidd ar y casgliadau hyn; a chyfoethogi dealltwriaeth y cyhoedd trwy eu harddangos a'u dehongli. Ymhlith pynciau AOCC y mae planhigion, anifeiliaid, daeareg, archaeoleg, celfyddyd, hanes cymdeithasol, diwyllianol a diwydiannol, ac fe ddisgrifiwyd ei gweithgareddau fel hyn: 'Dweud wrth Gymru am y Byd ac wrth y Byd am Gymru'. Yn unol â'i Siarter, mae'r Amgueddfa yn cyflwyno ei chasgliadau Cymreig mewn cyd-destun byd-eang. Mae ganddi gasgliad rhagorol o baentiadau a cherfluniau Ewropeaidd o'r 20fed ganrif; mae'n nodedig am astudiaethau amgylcheddol ar sail casgliadau gwyddonol rhyngwladol; ac mae'n cydweithio, yn ffurfiol ac anffurfiol, â phrif sefydliadau academaidd eraill ym mhedwar ban byd.

Trefniadaeth AOCC

Mae AOCC yn un o brif safleoedd treftadaeth Cymru, ei bwmpas creiddiol yw datblygiad a chynnydd yn addysgu'r cyhoedd. Mae'n gofalu am, yn datblygu, yn astudio ac yn annog mynediad i'w gasgliadau er budd y cyhoedd dros byth. Fel corff annibynnol siartredig ac elusen gofrestrredig, mae'r Amgueddfa yn derbyn ei nawdd craidd ar ffurf cymorth-drwy-grant oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel Corff Cyhoeddus sy'n cael ei Noddi gan y Cynulliad (CCNC). Mae'r wyth amgueddfa a Chanolfan Gasgliadau sy'n rhan o Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru fel a ganlyn:

Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol (AOG), Caerdydd – Mae'r Amgueddfa yng Nghanolfan Ddinesig neo-glasurol Caerdydd. Agorodd rhan gyntaf yr amgueddfa hon ym 1922; agorwyd yr adain ddwyreiniol ym 1932 a rhan ogleddol yr adain orllewinol ym 1965. Agorwyd orielau celf newydd, ac arddangosfa ddaearegol bwysig ym Mloc Canol yr Amgueddfa ym 1993. Mae'r Amgueddfa yn cynnwys casgliadau archaeoleg, celf, botaneg, daeareg a soöleg, gyda llawer o wagleoedd ar gyfer arddangosfeydd dros dro. Yn ddiweddar fe agorwyd man rhyngweithiol, sef Oriol Glanely, er mwyn dangos gweithgarwch y tu ôl i'r llenni.

Amgueddfa Werin Cymru (AWC), Sain Ffagan, Caerdydd - sefydlwyd isadran Diwylliant a Diwydiannau Gwerin ym 1932 ac yn dilyn derbyn Castell Sain Ffagan a'i stâd yn rhodd oddi wrth Ail Iarll Plymouth ym 1947, sefydlwyd yr Amgueddfa Werin bresennol fel cangen o Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae casgliadau Amgueddfa Werin Cymru yn ddrych o hanes Cymru dros 2,000 o flynyddoedd, gydag adeiladau hanesyddol dilys yn cael eu hailgodi o bob rhan o Gymru.

Amgueddfa'r Lleng Rufeinig (ALIR), Caerllion, Gwent - sefydlwyd ym 1850 gan Gymdeithas Hynafiaethwyr Caerllion, yng nghanol caer lengol Rufeinig Isca. Fe fu'r Amgueddfa hon yn rhan o AOCC er 1930. Yn ystod 1985/86, cafodd yr adeilad o'r 19eg ganrif ei ailddatblygu a'i estyn. Ym 1995 fe agorodd canolfan adnoddau addysgol (Canolfan Capricorn) ac yna 'Y Stiwdio' ym 1999 sy'n darparu gwagle ychwanegol ar gyfer gweithgareddau 'hanes byw'. Bu agoriad 'Canolfan Pegasus' yn 2000i gyd-fynd â dathliad 150 mlwyddiant yr Amgueddfa, yn darparu gwagle ychwanegol i ddelio gyda'r niferoedd mawr o blant ysgol sy'n ymweld â'r Amgueddfa.

Amgueddfa Lechi Cymru (ALC), Llanberis – sefydlwyd yr amgueddfa hon ym 1969 yn hen Weithdai Chwarel Dinorwig, sy'n adeilad cofrestredig ac yn Heneb Restredig, er mwyn adrodd hanes y diwydiant llechi. Yn ddiweddar fe gafodd gwaith adnewyddu gwerth £2.2 miliwn ei wneud i'r safle, yn bennaf gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL). Mae'r newidiadau wedi gwella'r gwaith dehongli yn yr Amgueddfa drwy ailsefydlu incléin V2, symudwyd nifer o dai chwarelwyr i'r safle, a'r cyflwyniad clyweledol 3-D dramatig 'Dwyn y Mynydd'.

Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru (ADGC), Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin – agorodd hon ym mis Gorffennaf 1976 yn hen Felinau Cambria, fe'i rhestrwyd gan Cadw'n ddiweddar fel y grŵp gorau o adeiladau melin wllân sydd wedi goroesi yn yr ardal hon, a arferai gael ei galw yn Huddersfield Cymru. Mae'r Amgueddfa yn cyflwyno darlun o ddatblygiad technolegol, cymdeithasol, economaidd a chelfyddydol y diwydiant gwlân yng Nghymru. Mae cynlluniau ailddatblygu

cynhwysfawr ar gyfer yr amgueddfa hon, gyda chefnogaeth grant o bron i £1m oddi wrth CDL, yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd.

Oriel Tŷ Turner (OTT), Penarth, Bro Morgannwg – un o orielau AOCC er 1921 sy'n darparu cyfleusterau ar gyfer arddangosfeydd dros dro, rhai celf yn bennaf.

Amgueddfa Rufeinig Segontium (ARS), Caernarfon, Gwynedd – o fewn Caer Atodol Rufeinig Segontium, mae'r amgueddfa yn arddangos darganfyddiadau a wnaed wrth gloddio'r gaer ym 1921-23 a chloddio'r *mithraeum* yn y 1950au. Gyda'r arddangosiadau rhyngweithiol, mae'r arteffactau yn bwrw goleuni ar fywyd beunyddiol y garsiwn a'r effaith a gafodd y Rhufeiniaid ar yr ardal. Er mai AOCC sy'n llwyr gyfrifol am y tu mewn i'r amgueddfa, mae'r rhan allanol ynghyd â'r olion a gloddiwyd yn gyfrifoldeb Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Sir Gwynedd ar y cyd. Mae AOCC mewn trafodaethau ar hyn o bryd i greu strwythur rheolaeth leol fyddai'n fwy cydnaws i natur a chyd-destun lleol yr amgueddfa.

Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru (ALGC), Blaenafon, Torfaen – yng nghalon y Safle Treftadaeth y Byd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae Pwll Mawr yn cynnig profiad di-ail ym Mhrydain ac un sy'n unigryw yng Nghymru. Gydag arweiniad cyn-löwr, mae ymwelwyr yn disgyn 300 troedfedd i archwilio'r gweithfeydd o dan y ddaear. Ar yr wyneb mae adeiladau'r lofa, baddonau pen y pwll, gweithdy'r gof a thŷ weindio'r injian, ac mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau yma wedi'u cofrestru fel Gradd II neu Gradd II serennog. Caiff y safle ei hystyried gan Cadw fel yr unig safle pwll glo cyfan yng Nghymru; ac mae'n cychwyn ar ailddatblygiad mawr gwerth £7m fydd yn cael ei noddi'n bennaf gan CDL. Cyn ei integreiddiad i mewn i AOCC ar 1 Chwefror, 2001, bu Pwll Mawr yn gweithredu a m 18 mlynedd fel Ymddiriedolaeth Elusennol a Chwmni Cyfyngedig annibynnol; fel rhan o'r ymgorffori mae AOCC wedi cael meddiant o 'Matchtake Cyf.' fel busnes gweithredol.

Canolfan Gasgliadau, Nantgarw, Rhondda Cynon Taf - yma bellach mae'r rhan fwyaf o gasgliad diwydiannol a morwrol yr Amgueddfa, wedi'i symud o Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru, Bae Caerdydd (ADMC a werthwyd ym mis Mawrth 1998). Codwyd Canolfan Adnoddau Archifol o fewn y ganolfan ac mae cynlluniau ar gyfer estyniad sylweddol i'r adeilad yn cael eu datblygu.

Ffurf y Cyfrifon


Fe gafodd y cyfrifon eu paratoi dan Adran 9(4) Deddf Amgueddfeydd ac Oriellau 1992 ar ffurf a gyfarwyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael trwy wneud cais i'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio. Mae cyfrifon yr Amgueddfa yn cydsynio'n llawn gyda gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2000) 'Cyfrifo ac Adrodd yn ôl gan Elusennau'. Er dibenion y SORP mae Adroddiad Ariannol y Cyngor yn cynrychioli Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr.

Canlyniadau a Chyllid

Adnoddau net yr Amgueddfa a dderbyniwyd cyn costau tybiannol oedd £4,111,000 (£1,438,000 yn dod i mewn yn 2000-01). Adnoddau'r Amgueddfa a ddaeth i mewn oedd £24,264,000 (£19,352,000 yn 2000/01) a chyfanswm adnoddau net yr Amgueddfa a wariwyd oedd £20,153,000 (£17,914,000 yn 2000/01) cyn costau tybiannol. Y cynnydd net yn yr arian am y flwyddyn ar ôl cymryd i ystyriaeth yr holl enillion a cholledion a sylweddolwyd ac na sylweddolwyd oedd £5,529,000 (cynnydd net o £6,168,000 yn 2000-01). Y gweddill yn y cronfeydd ar 31 Mawrth 2002 oedd £72,478,000 (£66,949,000 ar 31 Mawrth 2001). Gwnaeth Matchtake Cyf gofnodi elw o £29,000 am y flwyddyn ariannol 2001-02.


DADANSODDIAD O GYFANSWM YR ADNODDAU A WARIWYD

■	Casgliadau, Gofalaeth, Rheoli ac Ymchwil	27%
■	Arddangosfeydd Parhaol a Thros Dro ac Addysg	15%
■	(Yn cynnwys datblygiadau pwysig)	
■	Gwariant Ategol	46%
■	(Yn cynnwys Gwasanaethau Technegol a Gofalwyr)	
■	Codi Arian a Chyhoeddusrwydd	6%
■	Rheoli a Gweinyddu	6%



DADANSODDIAD O GYFANSWM YR ADNODDAU A DDERBYNIWYD

■	Grantiau Derbyniadwy	
	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	75%
	Grantiau eraill, gan gynnwys	
	cyrff eraill y Llywodraeth	5%
		80%
■	Rhoddion a Chymynroddion,	12%
■	Incwm arall	8%



Yn cynnwys digwyddiadau corfforaethol, ffioedd cyfleusterau, taliadau am wasanaethau, grantiau ymchwil, ffioedd hawlfraint, addysg, crefftwyr yn arddangos, nawdd, buddsoddiadau a llog y banc.

Dangosyddion Perfformiad

Dyma berfformiad yr Amgueddfa yn erbyn targedau y Dangosydd Perfformiad Sylfaenol a osodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

Dangosydd Perfformiad Sylfaenol	2001-02 Gwirioneddol	2001-02 Targed	20010-2 Gwirioneddol
1. Nifer yr Ymwelwyr (000' oedd)	800	1,430	765
2. Canran o eitemau'r casgliad a ddogfennwyd i'w rhestri	29.85%	30.88%	25.60%
3. Canran o'r amser ar agor	48.00%	50.10%	45.50%
4. Cyfanswm yr incwm a grëwyd fel canran o'r gwariant gweithredol net	6.45%	5.83%	6.60%
5. Nifer yr ymwelwyr ag AOCC i gymryd rhan mewn rhaglenni addysgol (000' oedd)	160a 55b	228(a) 141(b)	201(a)

(a) addysg ffurfiol; (b) addysg anffurfiol

- Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithgaredd, gwelodd 'mynediad am ddim' a noddwyd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnydd o 87% yn y cyfanswm o ymweliadau i'r Amgueddfa.
- Gwnaethpwyd datblygiad da yn erbyn targedau mwyfwy anodd yn y maes hanfodol yma.
- Mae'r cyfanswm yn adlewyrchu y cynnydd yn y nifer o weithgareddau sy'n cael eu cynnal y tu allan i oriau agor arferol. Yn ychwanegol arhosodd ADGC ar agor hyd ganol Mawrth cyn cau ar gyfer ailddatblygiad.
- Mae llithriad prosiect wedi cael effaith ar weithgareddau yr Adran Ddatblygu fel bo incwm a ddisgwyliwyd gan yr Amgueddfa yn 2001-02 ddim bellach yn digwydd hyd 2002-03.
- Mae'r cynnydd mewn ymwelwyr mewn grwpiau addysg anffurfiol yn adlewyrchu'r cynnydd cyffredinol mewn niferoedd ymwelwyr.

Perfformiad Taliadau Prydlon

Mae'r Amgueddfa yn cefnogi amcanion côd ymarfer Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain (CBI) ac mae'n anelu at dalu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfonebau dilys. Cyfnod cyfartalog talu anfonebau yn ystod 2001/02 oedd 22 diwrnod (25 diwrnod ym 2000/01), oedd yn cynnwys dros 90% a dalwyd o fewn 30 diwrnod. (72% yn 2000-01).

Buddsoddiadau Cyfalaf ac Asedau Sefydlog

Mae'r gweithiau mawrion a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwaith ar isadeiladedd technoleg gwybodaeth a chyfrifon (TGCh), adnewyddu oriel, ailosod offer a pheirianwaith hanfodol yn AOG, darpariaeth man bwyta addysg yn AWC, system gosod celf yn Nantgarw ar gfer y casgliadau celf a drosglwyddwyd o RAF Sain Tathan, cwblhad system rheoli gwybodaeth a gwaith paratoadol ar brosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri ADGC.

Clustnododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru £100,000 o arian ychwanegol oherwydd y difrod llifogydd yn AWC a gariwyd ymlaen o 2000/01. Roedd y gweithiau yma'n cynnwys ailadeiladu wal ffiniol, gweithiau lliniaru difrod llifogydd, gwaith atgywiro i dŷ'r cychod ac ailosod y pwmp yn y felin wllan.

Derbyniodd yr Amgueddfa hefyd £185,000 oddi wrth Gronfa Moderneiddio Cyfalaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwariwyd y nawdd ar archifau yn yr ystafelloedd digideiddio, cyfleusterau mentrau allestyn, system ddarlunio microsgop, EPOS a systemau archebu addysgol.

Ar Ebrill 2001 cadwodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru swm o £4,200,000 (o'r £4,500,000 gwreiddiol) ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe. Tynnwyd cyllid ychwanegol o £200,000 ar gyfer y gwaith datblygu ddigwyddodd yn 2001/02, gan adael £4,000,000 i'w wario ar yr adeiladu. Gwnaeth yr Amgueddfa hefyd drosglwyddo arian i AGG Abertawe Cyf o £137,000 (ar gyfer gweithiau cyfalaf paratoadol ar gam 2 o gais Cronfa Dreftadaeth y Loteri o swm £4,000,000 yr Amgueddfa a £822,000 o'r £6,000,000 ychwanegol a glustnodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel gwarant ar y prosiect.

Cychwynwyd y gwaith ar brosiect ailddatblygu Pwll Mawr gwerth £7m fydd yn ychwanegol i'r nawdd Amgueddfaol ac yn cael ei gyllido o grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) (£5m), grant Cronfa Adfywio Lleol LRF (£0.5m), grant Bwrdd Croeso Cymru (£0.4m) a grantiau a rhoddion eraill (£0.7m). Fel yn 31 Mawrth roedd gwariant gwir o £726,000 wedi'i wario ar y prosiect.

Caffaeliadau Sbesimenau

Bu dau brif bwrccas yn 2001-02 sef:

'Gweledigaeth yr Edifeirwr' gan Henry Clarence Whaite am gost o £24,000

'Ger Beddgelert' gan Thomas Girtin am gost o £300,000

Cefnogwyd pwrccas Thomas Girtin gan grant o £70,000 oddi wrth Gronfa y Casgliad Celfyddyd Cenedlaethol.

Roedd eitemau eraill o bryniant yn cynnwys cwblhau'r gwaith ar olwyn ddŵr ALC, gwaith sy'n mynd rhagblaen ar Eglwys Llandeilo Tal-y-bont a Swyddfa Heddlu Ffynnon Taf, ychwanegiadau i gasgliad y llyfrgell a gwaith maes o fewn adrannau curadurol amrywiol.

Datblygiadau yn y Dyfodol

Datblygiadau yn Pwll Mawr, Amgueddfa Lofaol Genedlaethol

Gwnaeth cais llwyddiannus gan Pwll Mawr o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ym 1999 sicrhau grant o £5m tuag at gyfanswm £7m o waith cadwraeth ar y peiriannau sy'n gweithio danddaear a'r adeiladau sy'n bodoli'n barod ar yr wyneb yn ogystal â darparu cyfleusterau dehongli ac orielau i arddangos deunyddiau'r diwydiant glo o Pwll Mawr ac o gasgliadau AOCC. Bydd y gweithiau ailddatblygu wedi'u cwblhau yn 2003-04 ac maent wedi'u cynllunio i arwain at well profiad o ymweld a boddhad ymwelwyr fydd yr amgueddfa yn gwneud yn atyniad canolog yn y Safle Treftadaeth y Byd newydd, gan alluogi datblygiad mangre fywiog i ymwelwyr ym Mlaenafon a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o hanes diwydiannol blaenllaw Cymru.

Datblygiadau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (AGGA)

Bydd AGGA yn Abertawe yn cymryd lle Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru (ADMC) ac Amgueddfa Forwrol a Diwydiannol Abertawe (AFDA), a bydd yn gweithredu fel arwyddbost i safleoedd diwydiannol eraill AOCC ac i safleoedd perthnasol eraill sy'n cael eu rhedeg gan gyrff eraill hefyd, yn ogystal â bod yn amgueddfa flaengar yn ei hawl ei hun. Mae AGGA am gael ei datblygu ar y cyd â Dinas a Sir Abertawe, ail ddinas Cymru, a lle a fu'n un o gartrefi'r Chwyldro Diwydiannol. Mae ceisiadau grant wedi'u cyflwyno i Gronfa Treftadaeth y Loteri a chyrrff noddol eraill er mwyn gwneud yn fawr o'r symiau a gafwyd o werthiant Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru; roedd AOCC wedi bod yn llwyddiannus yn barod gyda chais Cam 1 o Gronfa Dreftadaeth y Loteri am dros £11m. Rydym hefyd wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig o gefnogaeth mewn egwyddor o hyd at £2.5m oddi wrth Fwrdd Datblygu Cymru (WDA) a £1.5m oddi wrth Fwrdd Croeso Cymru (WTB). Yn ddiabynnol ar AOCC yn gwneud yr ymdrech fwyaf i sicrhau nawdd cyfatebol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno i warantu yn erbyn peryglon i'r fenter o hyd at £6m. Y targed ar gyfer codi arian i'r prosiect hwn yw £4.4m, bydd y rhan fwyaf o'r arian yma yn cael ei sicrhau dros y 3 blynedd nesaf gyda'r bwriad o agor yr amgueddfa newydd yn 2005-6.

Datblygiadau yn Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru

Yn dilyn y cais llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am bron i £1m, bydd AOCC yn datblygu ADGC i'w chodi hi at y safonau a ddisgwyliad ar gyfer amgueddfa genedlaethol. Mae cais ychwanegol am £350,000 wedi'i roi gerbron am nawdd Amcan 1. Bydd yr ailddatblygiad yn gwneud 60% mwy o'r safle yn agored i'r cyhoedd a bydd yn gofalu am wneuthuriad y pedair melin sy'n adeiladau cofrestredig, gan ail-arddangos ac ail-ddehongli'r casgliadau ac uwchraddio'r cyfleusterau addysgol ac ymwelwyr ar y safle ac felly'n creu safle o bwys fyddai'n atyniad i ymwelwyr yn Nyffryn Teifi.

Polisi ar Gronfeydd wrth Gefn

Mae polisi'r Amgueddfa ar gronfeydd wrth gefn yn ddibynol ar yr awdurdod a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Natganiad a Memorandwm Ariannol Rheolaeth Amgueddfeydd sydd yn cyfyngu'r cronfeydd ariannol wrth gefn i 2% o gyfanswm grant blynyddol ac incwm. Bydd yr Amgueddfa'n bwriadu cyrraedd sefyllfa ariannol sefydlog ar sail flynyddol, gyda'r incwm a'r gwariant yn gyfartal.

Mae cronfeydd parhaol a rhoddion yr Amgueddfa'n cael eu cynnal ar wahân ac yn cael eu nodi o fewn y cyfrifon fel cronfeydd cyfyngedig. Nid oes cyfyngiad ar y rhain a pholisi'r Amgueddfa yw i adeiladu'r cronfeydd yma i gael eu defnyddio fel nawdd cyfatebol ar gyfer prosiectau a'r cynlluniau cyfalaf hynny nad yw'n derbyn nawdd craidd ar eu cyfer.

Polisi Buddsoddi a Pherfformiad

Buddsoddir cronfeydd parhaol a rhoddion yr Amgueddfa ar ei rhan gan ei hymgynghorwyr buddsoddi, Gerrard Ltd. Mae ymagwedd yr Amgueddfa tuag at berygl yn un gofalus ac mae'r asedau ariannol yn cael eu buddsoddi mewn portffolio gyda llai o berygl a chydag elfen fawr yn cael ei chadw mewn buddsoddiadau yn seiliedig ar arian. Mae perfformiad y cronfeydd hynny yn ddibynol ar adolygiad ffurfiol yn chwarterol.

Effaith yr Ewro

Cred yr Amgueddfa na fydd cyflwyniad yr Ewro yn cael effaith arwyddocaol ar ei gweithrediadau na'i chyfrifon.

Peryglon Mawr

Mae Cyngor yr Amgueddfa, Pwyllgorau a'r Cyfarwyddwyr wedi archwilio'r peryglon strategol, y peryglon busnes a gweithredol mawrion y bydd yr Amgueddfa'n eu hwynebu ac wedi sefydlu system sy'n sicrhau fod peryglon yn cael eu hadolygu a'u hadrodd yn chwarterol ar bob lefel o'r sefydliad, a bod y gweithredu priodol wedi'i osod yn ei le i leddfu'r peryglon arwyddocaol. Cafodd y systemau yma eu gweithredu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2002 yn unol ag argymhellion canllawiau cyhoeddus Pwyllgorau Turnbull a SORP 200. Yn ychwanegol adolygir y peryglon yn flynyddol fel rhan annatod o broses cynllunio corfforaethol.

Mae'r peryglon mawr a nodwyd fel rhan o broses rheoli peryglon yn cynnwys peryglon ariannol megis newid yn yr amgylchedd economaidd, nawdd y Cynulliad ac anawsterau wrth geisio denu nawdd cyfatebol ar gyfer prif brosiectau'r Amgueddfa; adeiladau, defnyddiau a goblygiadau iechyd a diogelwch; atebolrwydd i'r cyhoedd a pheryglon cynllunio a phersonél/staffio.

Camau a gymerir o ran cyflogi gweithwyr anabl

Mae'r Amgueddfa yn gweithredu trefn recriwtio anwahaniaethol a phob amser yn barod i ystyried ceisiadau gan bobl anabl ac i benodi pobl anabl. At hynny, fe fydd yr Amgueddfa yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau angenrheidiol i allu gweithio'n effeithiol. Hefyd, mae cynllun strategol yr Amgueddfa yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus i wella mynediad i'r anabl i adeiladau, a mynediad at wybodaeth.

Polisi Iaith Gymraeg

Yn dilyn cwblhau cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Iaith Gymraeg drafft, fe'i cyflwynwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cafwyd sylwadau ffafriol gan y Bwrdd ac mae'r Cynllun yn cael ei weithredu ar hyn o bryd.

Camau a gymerwyd i gynnal neu ddatblygu darpariaeth gwybodaeth i, ac ymgynghoriad â gweithwyr.

Mae'r Amgueddfa yn cyfleu gwybodaeth i'w gweithwyr drwy wahanol ffyrdd yn cynnwys briffio tîm rheolaidd i'r holl staff, anerchiadau chwarterol gan y Cyfarwyddwr i'r holl staff, memoranda agored, memoranda at Benaethiaid Adrannau a thrwy ymgynghori a thrafod gyda'r Undebau Llafur cydnabyddedig, a bydd cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu cynnal â hwy.

Aelodaeth y Llys a'r Cyngor

Ym 1991, caniatwyd Siarter Frenhinol a Statudau atodol newydd i'r Amgueddfa sy'n elusen gofrestrdedig (Rhif Elusen 525774, Rhif TAW. GB 1345978 43). Newidiodd y Siarter newydd gyfansoddiad Llys a Chyngor yr Amgueddfa gan gadarnhau mai 'Amgueddfa Genedlaethol Cymru' ('The National Museum of Wales') yw'r corff corfforaethol olynol i'r hyn a enwyd yn y Siarter wreiddiol. Diwygiwyd y Siarter yn 2000 i gydnabod awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr awdurdod gweithredol yw'r Cyngor sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu cyllid ac eiddo'r Amgueddfa lle cyflwynir yr holl arian a gyfrennir gan y Trysorlys neu sy'n deillio o ffynonellau eraill a'r holl dir, adeiladau, neu roddion mewn nwyddau a ddyfeisir neu a ganiateir er dibenion y sefydliad.

Yn ychwanegol at y rhagair hwn, ceir manylebau o aelodau'r Llys a'r Cyngor a enwebwyd ar 31 Mawrth 2002, gan gynnwys y rhai a adawodd neu a ddechreuodd yn ystod y flwyddyn. Mae ymddiriedolwyr yr Amgueddfa yn aelodau o'r Cyngor.

Archwilydd

Archwilir y cyfrifon gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 9 (8) Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992.

Y Brif Swyddfa

Y brif swyddfa ar gyfer Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yw: Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP

Prif Ymgynghorwyr

Bancwyr:	LloydsTSB, Caerdydd
Cyfreithwyr:	Morgan Cole, Caerdydd
Archwilwyr Mewnol:	Grant Thornton, Caerdydd
Rheolwyr Buddsoddiad:	Gerrard Ltd, Bryste
Rheolwyr y Gronfa Bensiwn:	Mercer Human Resources Consulting, Bryste
Trethiant:	Deloitte & Touche, Caerdydd

Anna Southall

Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 10 Medi 2002

G. Wyn Howells

Trysorydd, ar ran y Cyngor
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 11 Medi 2002

LLYS Y LLYWODRAETHWYR

(Ar 31 Mawrth 2002)

LLYWYDD

Mathew Prichard, C.B.E., D.L.,B.A.

IS-LYWYDD

Roger G. Thomas O.B.E., LLB, C.C.M.I.

TRYSORYDD

G. Wyn Howells A.C.I.B.

AELODAU O'R CYNGOR

NAD YDYNT YN AELODAU'R LLYS FEL ARALL

Mrs A. Carey-Evans

J. W. Evans C.B.E., M.A.

C. L. Jones O.B.E., F.R.S.A.

M. A. J. Salter

PENODWYD GAN ARGLWYDD LYWYDD Y CYFRIN GYNGOR

AC YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU

Dr Susan J. Davies, B.A. (hyd Chwef 2002)

Dr P. T. Warren C.B.E., M.A.

Linda D. Quinn

C. Malcolm Parry

Eirlys Pritchard Jones, B.A.

Dr Nancy M. Edwards, B.A., F.S.A.

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Yn wag

PRIFYSGOL CYMRU

Mair Waldo Thomas

Yr Athro J. King

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Y Cyngorydd D. Parry Jones (hyd Fehefin 2001)

AELODAU SENEDDOL CYMRU

W. Griffiths

PENODWYD GAN Y LLYS

H. Jones (hyd Hyd 2001)

D. Bowen Lewis

Dr. W. B. Willott, C.B.

Dr. E. Wyn Lewis

C. Rowlands

H. Mansfield (o Hyd 2001)

CYNRYCHIOLWYR AWDURDODAU LLEOL

Y Cynghorydd J. G. Jenkins
 Y Cynghorydd R. W. Hughes
 Y Cynghorydd P. G. Larsen
 Y Cynghorydd P. M. Thomas
 Dr C. Grace
 Y Cynghorydd R. Francis Davies
 Y Cynghorydd D. Rogers
 Y Cynghorydd J. A. H. Harries
 Y Cynghorydd R. Cass
 Y Cynghorydd R. H. Poole
 Y Cynghorydd J. Huish
 Y Cynghorydd D.I. Bowen

SEFYDLIADAU YNG NGHYMURU

Cymdeithas Hynafiaethau Cymru:	K. Mascetti
Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol :	G.E. Humphreys
Cymdeithas Amgueddfa Genedlaethol Cymru:	H. Looker
Y Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru:	Y Cynghorydd R. Francis Davies
TUC Cymru:	<i>Yn wag</i>
Cyngor Cymreig y CBI:	<i>Yn wag</i>
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:	M. A. McLaggan
Cyngor Celfyddydau Cymru:	S. Crouch
Bwrdd Croeso Cymru:	J. Jones
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru Cyf.:	<i>Yn wag</i>
Cyngor Cefn Gwlad Cymru:	P. Loveluck
Cyngor Archaeoleg Prydain:	F.L. Llewelyn
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau yng Nghymru:	<i>Yn wag</i>

Y CYNGOR

(Ar 31 Mawrth 2002)

LLYWYDD

Mathew Prichard, C.B.E., D.L., B.A.

IS-LYWYDD

Roger G. Thomas O.B.E., LLB, C.C.M.I.

TRYSORYDD

G. Wyn Howells, A.C.I.B.

PENODWYD GAN YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU

Dr Susan J. Davies, B.A. (hyd Chwef 2002)
 Mrs Eirlys Pritchard Jones, B.A.
 Dr Nancy M. Edwards, B.A., F.S.A.
 Dr Peter Warren C.B.E., M.A.

ETHOLWYD GAN LYS Y LLYWODRAETHWYR

D. Bowen Lewis

Dr. W. B. Willott C.C.

Dr. E. Wyn Lewis

ETHOLWYD GAN Y CYNGOR

Mrs A. Carey-Evans

J.W. Evans C.B.E., M.A.

Yr Athro C. L. Jones O.B.E., F.R.S.A.

M. A. J. Salter

BWRDD RHEOLWYR (ar 31 Mawrth 2002)

Cyfarwyddwr AOCC

Cyfarwyddwr Ymchwil ac Addysg (Dirprwy Gyfarwyddwr AOCC)

Cyfarwyddwyr Hanes Cymdeithasol a Diwydiannol

Cyfarwyddwr y Celfyddydau a'r Gwyddorau

Cyfarwyddwr Cynllunio Adnoddau

Cyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol

Anna Southall

Eurwyn William

John Williams-Davies

Michael Tooby

Mark Richards

Robin Gwyn

Datganiad ar y System Reolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb dros sicrhau bod Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn cynnal a gweithredu system rheolaeth ariannol fewnol effeithiol sy'n cefnogi'i chyflawniad o'i pholisïau, nodau ac amcanion, fel y nodwyd gan y Cyngor, tra'n diogelu asedau a chronfeydd cyhoeddus yr wyf fi'n bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi gan Gyfrifo'r Llywodraeth

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i gynllunio i reoli yn hytrach na diddymu'r perygl o fethiant wrth gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gall ond ddarparu effeithlonrwydd rhesymol felly ac nid sicrwydd absoliwt o hynny.

Mae'r system ar gyfer rheoli yn fewnol wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reolaidd i reolwyr, rheoliadau ariannol, trefniadau gweinyddol yn cynnwys gwahanu dyletswyddau a dirprwyo ar wahanol lefelau, yn ôl cyfarwyddyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru (Ymddiriedolwyr). Mae'n broses barhaol wedi'i chynllunio i adnabod y prif beryglon i weithrediad polisïau, nodau ac amcanion yr Amgueddfa, i werthuso natur a maint y peryglon hynny ac i'w rheoli'n effeithiol ac yn economegol. Mae'r broses hon wedi bod mewn bodolaeth ers Chwefror 2002 ac yn gyfredol â dyddiad cymeradwyo'r adroddiadau blynyddol ac ariannol.

Fel Swyddog Cyfrifo mae gennyf gyfrifoldeb hefyd dros adolygu effeithlonrwydd y ssystem reolaeth fewnol. Mae'r Amgueddfa wedi sefydlu'r prosesau canlynol:

Yn benodol mae'n cynnwys:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol a gymeradwyir gan yr Ymddiriedolwyr ac arolygon rheolaidd gan yr Ymddiriedolwyr o adroddiadau chwarterol a blynyddol sy'n dangos y perfformiad ariannol gyferbyn â'r argoelion;
- Gosod targedau i fesur y perfformiad ariannol a pherfformiadau eraill;
- Canllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n eglur;
- Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n cyfarfod yn fisol i ystyried y cynlluniau a chyfeiriad strategol yr Amgueddfa (mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cynnwys Cyfarwyddwyr yr Amgueddfa);
- Adroddiadau cyfnodol oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i'r Cyngor ynglŷn â rheolaeth fewnol;
- Adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol hyd at y safonau a ddiffinir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth fydd yn cynnwys barn annibynnol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol ar gymhwyster ac effeithlonrwydd system yr adran o reoli mewnol ynghyd â gydag argymhellion am welliannau;
- Adroddiadau chwarterol oddi wrth reolwyr ar y camau y maent yn cymryd yn eu hardaloedd gan gynnwys adroddiadau datblygu ar brosiectau allweddol; ac

- Adroddiad rheolaidd o hyfforddiant ymwybyddiaeth peryglon drwy weithdai er mwyn adnabod a chadw'n gyfredol gyda'r cofnodion o beryglon sy'n wynebu'r sefydliad gyda gweithredu methodoleg blaenoriaethu cadarn yn seiliedig ar raddio peryglon.

Bydd fy arolwg ar effeithiolrwydd y system rheoli ariannol mewnol yn cael ei gyfarwyddo gan waith yr archwilwyr mewnol, yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwylio gwaith yr archwilydd mewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Anna Southall

Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr
10 Medi 2002

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr

Dan adran 9(4) Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992, rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr (y Cyngor) Amgueddfa Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyda chaniatâd y Trysorlys. Paratwir y cyfrifon i ddangos arolwg gwir a theg o weithgareddau ariannol yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon yr Amgueddfa rhaid i'r Ymddiriedolwyr:

- ufuddhau i gyfarwyddyd am gyfrifon a gyflwynir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifeg a datgelu a'u cymhwyso'n gyson;
- barnu ac amcangyfrif mewn ffordd resymol a gochelgar;
- nodi a yw safonau cyfrifo cymwys a datganiadau o arferion cymeradwy wedi'u dilyn a datgelu ac egluro unrhyw wyro o bwys yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r adroddiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr Amgueddfa yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pennu'r Cyfarwyddwr yn Swyddog Cyfrifo Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y mae hi'n atebol amdanynt ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyflwynwyd gan y Trysorlys.

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 17 i 32 yn unol ag Adran 9(4) Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a ddiwygiwyd trwy ailbriso asedau sefydlog a'r polisiâu cyfrifo a ddisgrifir ar dudalennau 21 a 22.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Cyfarwyddwr a'r Archwilwyr

Fel y disgrifir ar dudalen 15, y Cyngor a Chyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru, sef y Swyddog Cyfrifo, sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol a Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyfarwyddiadau a wnaethpwyd o dan hynny ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Y Cyngor a'r Cyfarwyddwr hefyd sy'n gyfrifol am lunio'r Rhagair. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwiliwr annibynnol, trwy statud a'u llywio gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn adrodd fy marn ynghylch p'run a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi arolwg gwir a theg ac a gawsant eu paratoi'n unol â Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 a chyfarwyddyd a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddaf yn adrodd fy marn a gafodd y gwariant a'r incwm, ym mhob modd perthnasol, eu cymhwyso ar gyfer y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn adrodd os, yn fy marn i, y bydd y Rhagair yn anghyson â'r datganiadau ariannol, os na fydd yr

Amgueddfa wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os na fyddaf yn derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen gweddill yr wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwilir. Byddaf yn ystyried y goblygiadau o safbwynt fy nhystysgrif os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamfyneigiant neu anghysonderau o bwys o fewn y datganiadau ariannol.

Byddaf yn ystyried a yw'r datganiad ar dudalen 14 yn dangos bod yr Amgueddfa yn cydymffurfio â chanllaw y Trysorlys 'llywodraethu corfforaethol: datganiad ar y system rheolaeth ariannol fewnol'. Byddaf yn adrodd os nad yw'n cwrdd â'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwy'n ymwybodol ohoni yn sgîl fy ngwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Sail y farn

Cynhelais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyflwynwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'n cynnwys archwilio, ar sail profion, tystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Fe fydd hefyd yn cynnwys asesu'r amcangyfrifon a'r barnau sylweddol a wneir gan y Cyngor a'r Cyfarwyddwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Amgueddfa, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n addas.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth ac esboniadau a oedd yn fy marn i yn angenrheidiol er mwyn i mi gasglu digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camfyneigiant o bwys, boed hynny'n anfwriadol, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall ac, ym mhob modd perthnasol, bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio ar gyfer y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso'n gyffredinol pa mor addas y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi arolwg gwir a theg o gyflwr materion Amgueddfa Genedlaethol Cymru â'r Grŵp ar 31 Mawrth 2002 ac o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r modd y'u defnyddiwyd, a llif arian y Grŵp, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac y'u paratowyd yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 a chyfarwyddyd a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
